



# Cyllid & Thollau EM

## Ynglŷn â'ch Budd-dal Plant

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni am newidiadau a allai effeithio ar swm y Budd-dal Plant y mae gennych hawl iddo.

Mae'r nodiadau hyn yn egluro pryd y dylech gysylltu â ni.

Mae'n hawdd ac yn gyflym i roi gwybod ar-lein am newidiadau i'ch Budd-dal Plant.

**<https://www.gov.uk/cyfrif-treth-personol>**

Byddwn yn cadarnhau ar unwaith bod eich newidiadau wedi dod i law.

**Rhowch wybod i ni am newidiadau ar unwaith**

I'w ddefnyddio o fis Hydref 2017 ymlaen

Cadwch y nodiadau hyn fel y gallwch gyfeirio atynt yn y dyfodol

CH1715

# Cynnwys


<b>Rhagarweiniad</b>	3
Pa fath o addysg sy'n cyfrif ar gyfer Budd-dal Plant?	4
Pa fath o hyfforddiant cymeradwy sy'n cyfrif ar gyfer Budd-dal Plant?	4
<b>Newidiadau a all effeithio ar swm y Budd-dal Plant y mae gennych hawl iddo</b>	5
Mae gennych fabi neu mae plentyn arall yn dod i fyw gyda chi	5
Newidiadau sy'n digwydd i chi	5
Gadael y DU	5
Gwladolion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)	5
Newidiadau eraill sy'n rhaid i chi roi gwybod i ni amdanynt	6
Newidiadau sy'n digwydd i blentyn	6
Parhau mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu'n hyfforddiant cymeradwy	7
<b>Mae eich plentyn yn gadael addysg neu hyfforddiant</b>	8
Cyn 31 Awst yn dilyn ei ben-blwydd yn 16 oed	8
Ar ôl 31 Awst yn dilyn ei ben-blwydd yn 16 oed	8
<b>Budd-dal Plant ar gyfer pobl ifanc o dan 18 sy'n gadael addysg neu hyfforddiant</b>	8
Pwy sy'n gymwys ar gyfer yr estyniad?	8
Sut i wneud cais am estyniad	9
<b>Cael eich arian</b>	9
<b>Pethau eraill sydd, o bosibl, angen i chi wybod amdanynt</b>	10
Credydau Yswiriant Gwladol	10
Credydau Ffactor Enillion	10
<b>Eich hawliau a'ch rhwymedigaethau</b>	11
<b>Sut i gysylltu â ni</b>	11

Mae gennym ystod o wasanaethau ar gyfer pobl anabl. Mae'r rhain yn cynnwys arweiniad mewn Braille, ar dâp sain ac mewn print bras. Mae'r rhan fwyaf o'n ffurflenni ar gael mewn print bras hefyd. Cysylltwch â'n llinellau cymorth am ragor o wybodaeth.

## Gwybodaeth bwysig

Os ydych chi neu'ch partner yn cael incwm unigol sy'n fwy na £50,000 y flwyddyn.

Os oes gennych chi neu'ch partner incwm unigol dros £50,000 y flwyddyn, mae'n rhaid i'r partner gyda'r incwm uchaf dalu Treth Incwm ar ychydig o'r, neu'r holl Fudd-dal Plant a gewch (neu y mae rhywun arall yn ei gael ar gyfer plentyn sy'n byw gyda chi). Gelwir y dreth yn 'Tâl Incwm Uchel Budd-dal Plant'.

 Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn [www.gov.uk/child-benefit-tax-charge](http://www.gov.uk/child-benefit-tax-charge).

Os yw hyn yn gymwys ar eich cyfer chi neu'ch partner, dylech hawlio Budd-dal Plant ar gyfer eich plentyn, am y gallai hynny helpu i warchod eich Pensiwn y Wladwriaeth a sicrhau bod eich plentyn yn cael rhif Yswiriant Gwladol. Mae gennych ddewis ynghylch p'un ai i gael y taliadau.

Gallwch benderfynu ar y cyd i wneud y naill neu'r llall o'r canlynol:

- cael taliadau Budd-dal Plant a'u datgan at ddibenion treth incwm
- peidio â chael Budd-dal Plant a pheidio â gorfod talu tâl treth

## Rhagarweiniad

Mae Budd-dal Plant yn fudd-dal y Deyrnas Unedig (DU). Y DU yw Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (ond nid Ynyssoedd y Sianel neu Ynys Manaw).

Mae'r nodidadau hyn yn rhoi gwybod i chi am gael eich Budd-dal Plant. Maent hefyd yn egluro'r newidiadau a allai effeithio ar eich hawliad. Rhaid i chi roi gwybod i ni ar unwaith os bydd unrhyw un o'r newidiadau hyn yn digwydd. Os na fyddwch yn gwneud hynny a'n bod yn talu gormod i chi, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu'r arian hwn yn ôl.

Os ydych yn cael Budd-dal Plant, rydych yn gyfrifol am blentyn o dan 16 oed (neu o dan 20, os yw'n parhau mewn addysg neu hyfforddiant cymeradwy).

Gallwn dalu Budd-dal Plant ar gyfer plentyn neu berson ifanc cymwys. Mae 'person ifanc cymwys' yn rhywun sy'n 16, 17, 18 neu 19 oed ac sydd mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy. Pryd bynnag y defnyddiwn y term 'plentyn' neu 'plant', rydym hefyd yn golygu 'person ifanc cymwys' neu 'personau ifanc cymwys'.

### **Pa fath o addysg sy'n cyfrif ar gyfer Budd-dal Plant?**

Gallwch hawlio Budd-dal Plant ar gyfer person ifanc 16, 17, 18 ac 19 oed sydd mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch. Mae'n rhaid bod eich plentyn wedi'i dderbyn ar gwrs addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch, cyn iddo droi'n 19 oed.

Fel arfer darperir addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch mewn ysgol neu goleg ond gall hefyd gynnwys addysg a ddarperir ar yr aelwyd, os oedd y plentyn yn cael yr addysg honno cyn ei ben-blwydd/phen-blwydd yn 16 oed, a chymeradwywyd yr addysg ar yr aelwyd.

Wrth ddweud 'amser llawn', rydym yn golygu ar gyfartaledd mwy na 12 awr o astudio dan oruchwyliaeth yr wythnos, yn ystod y tymor, heb ystyried amserau egwyl ar gyfer prydau neu waith cartref.

**Yn Lloegr** gall addysg amser llawn heb fod yn addysg uwch gymryd lle yn rhywle heblaw ysgol. Mewn achos o'r fath, byddai amser llawn yn cynnwys rhaglen astudio sy'n cael ei darparu i berson am o leiaf 540 awr o fewn unrhyw gyfnod o 12 mis.

Gallai hefyd gynnwys hyfforddeiaeth, rhaglen astudio gywasgedig yn Lloegr a allai bara rhwng 6 wythnos a 6 mis.

Nid yw'n cynnwys cyrsiau neu addysg a ddarperir gan gyflogwr neu fel rhan o gytundeb cyflogaeth.

Ambell enghraifft o addysg amser llawn heb fod yn addysg uwch:

- TGAU, Lefel A a chymwysterau academaidd cyffredinol eraill o safon debyg, er enghraifft
  - iGCSEs, Pre-U a'r Fagloriaeth Ryngwladol
- NVQ lefel 1, 2 neu 3
- Diploma Cenedlaethol BTEC, Tystysgrif Genedlaethol a '1st Diploma'
- Hyfforddeiaeth (Lloegr)
- National 4 a 5 (Yr Alban)
- SVQ lefel 1, 2 neu 3
- Scottish Group Awards.

### **Pa fath o hyfforddiant cymeradwy sy'n cyfrif ar gyfer Budd-dal Plant yn yr Alban**

– *The Employability Fund*

**Yng Nghymru** – Prentisiaethau Sylfaenol neu Hyfforddiaethau

**Yng Ngogledd Iwerddon:**

- *PEACE IV Children and Young People 2.1*
- *Training for Success*

Mae'n rhaid i'ch plentyn gael ei dderbyn ar gyfer hyfforddiant cymeradwy cyn ei fod yn troi'n 19 oed.

### **Pwysig**

Mae Budd-dal Plant yn dod i ben pan fo plentyn yn cyrraedd 20 oed.

# Newidiadau allai effeithio ar y swm o Fudd-dal Plant sydd gennych yr hawl iddo

## Mae gennych fabi neu mae plentyn arall yn dod i fyw gyda chi

Os ydych yn rhoi genedigaeth i fabi mewn ysbyty, mae'n bosibl y caiff pecyn Bounty ei roi i chi. O fewn y pecyn hwn, cewch afael ar ffurflen gais Budd-dal Plant. Neu, os bydd plentyn yn dod i fyw gyda chi, llenwch ffurflen gais ar-lein.



Ewch i [www.gov.uk/child-benefit](http://www.gov.uk/child-benefit)



Rhowch alwad i'r Ganolfan Cyswllt Cymraeg i ofyn am becyn



## Newidiadau sy'n digwydd i chi

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni ar unwaith os ydych yn:

- newid eich enw
- newid eich cyfeiriad – byddwn yn dod â'ch budd-dal i ben os na allwn gysylltu â chi yn y cyfeiriad rydych wedi'i roi i ni
- eisiau newid y cyfrif y telir eich Budd-dal Plant i mewn iddo
- yn priodi, yn ffurfio partneriaeth sifil neu'n dechrau byw gyda rhywun fel pe baech yn briod neu mewn partneriaeth sifil ac mae'r ddau ohonoch yn cael Budd-dal Plant
- yn rhoi'r gorau i fyw gyda'ch partner ac mae'r ddau ohonoch yn cael Budd-dal Plant – byddwn wedyn yn gallu talu'r gyfradd uwch o Fudd-dal Plant ar gyfer y plentyn hynaf yn y naill deulu a'r llall

## Yn gadael y DU



Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni ar unwaith os ydych yn gadael:

- y DU ac nad ydych yn bwriadu dychwelyd am o leiaf blwyddyn – rydym yn trin hynny fel bod wedi gadael yn barhaol
- y DU dros dro am fwy nag 8 wythnos, neu mwy na 12 wythnos am eich bod yn sâl, neu fod aelod o'ch teulu'n sâl neu wedi marw
- am fwy nag 8 wythnos, gan symud naill ai o
  - Cymru, Lloegr neu'r Alban (Prydain Fawr) i fynd i Ogledd Iwerddon
  - Gogledd Iwerddon i fynd i Brydain Fawr

## Gwladolion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)



Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni ar unwaith os ydych yn wladolyn yr AEE a bod y canlynol yn codi:

- rydych yn colli eich gwaith
- mae'ch partner (os oes un gennych) yn colli ei swydd ac nid ydych yn gweithio
- nid ydych chi na'ch partner (os oes un gennych) yn ennill £157 (gros) neu'n fwy yr wythnos

### **Newidiadau eraill sy'n rhaid i chi roi gwybod i ni amdanynt**

- **i** Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni ar unwaith os yw'r canlynol yn berthnasol:
  - nid ydych yn wladolyn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd ac mae'r Swyddfa Gartref yn newid eich statws mewnfudo
  - rydych chi neu'ch partner (os oes un gennyh) yn dechrau talu cyfraniadau nawdd cymdeithasol i wlad y tu allan i'r DU
  - rydych chi neu'ch partner (os oes un gennyh) yn cael budd-dal nawdd cymdeithasol o wlad y tu allan i'r DU
  - rydych chi neu'ch partner (os oes un gennyh) yn dechrau gweithio y tu allan i'r DU
  - mae awdurdod lleol (Bwrdd neu Ymddiriedolaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon) yn dechrau eich talu am blentyn yr ydych yn gofalu amdano
  - mae'r person sy'n cael Budd-dal Plant yn marw
  - mae'ch incwm unigol chi neu'ch partner dros £50,000, oherwydd mae'n bosibl bydd rhaid i chi dalu tâl treth. Fodd bynnag, dylech barhau i hawlio Budd-dal Plant am y gallai hynny warchod eich Pensiwn y Wladwriaeth a'i fod yn helpu'ch plentyn i gael ei rif Yswiriant Gwladol.

### **Newidiadau sy'n digwydd i blentyn**

- **i** Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni ar unwaith am blentyn, os:
  - disgwylir y bydd yn byw i ffwrdd oddi wrthych am fwy na 56 diwrnod mewn unrhyw gyfnod o 16 wythnos
  - yw wedi byw i ffwrdd oddi wrthych am o leiaf un diwrnod bob wythnos yn ystod yr 8 wythnos diwethaf a
    - gofalir amdano gan awdurdod lleol (Bwrdd neu Ymddiriedolaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon) neu sefydliad gwirfoddol
    - disgwylir y bydd yn cael ei gadw mewn llety diogel neu lety heb ei ddiogelu
  - yw'n gadael y DU am gyfnod o rhwng 12 a 52 wythnos
  - yw'n gadael y DU am gyfnod sy'n fwy na 52 wythnos - rydym yn trin hwn fel bod yn barhaol
  - yw'n gadael naill ai
    - Prydain Fawr i fynd i Ogledd Iwerddon yn barhaol
    - Gogledd Iwerddon i fynd i Brydain Fawr yn barhaol
  - yw yn yr ysbyty am 12 wythnos neu'n hirach
  - yw mewn llety preswyl a ddarperir oherwydd ei anabledd neu iechyd

Nid oes rhaid i chi roi gwybod i ni am blant sydd i ffwrdd mewn ysgol breswyl yn y DU sy'n dod adref yn ystod gwyliau'r ysgol.

**i** Mae'n rhaid i chi rhoi gwybod i ni ar unwaith am blentyn, os:

- yw'n newid ei enw
- yw'n dechrau cael credydau treth, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Gredyd Cynhwysol yn ei enw/henw ei hun
- yw'n priodi, yn ffurfio partneriaeth sifil, neu'n dechrau byw gyda rhywun fel pe bae'n briod neu'n bartner sifil
- yw'n marw (mae'n bosibl y cewch gymorth am 8 wythnos ychwanegol).

### **Yn parhau mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy**

Byddwn yn ysgrifennu atoch i ganfod a oes plentyn 16 oed neu'n hŷn yn parhau mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy, ac os oes, y dyddiad y disgwylwch iddo adael yr addysg neu'r hyfforddiant cymeradwy hynny. Rhaid i chi roi gwybod i ni os yw'n gadael yr addysg neu'r hyfforddiant hwn cyn y dyddiad rydych wedi'i roi i ni. Mae rhagor o wybodaeth i'w cael ar dudalen 4, 'Pa fath o addysg sy'n cyfrif ar gyfer Budd-dal Plant'.

**i** Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni ar unwaith os yw plentyn yn 16 oed neu'n hŷn ac:

- yn methu mynychu addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy
- yn lleihau'r amser y mae'n astudio dan oruchwyliaeth yn yr ysgol neu goleg i gyfartaledd o 12 awr neu lai'r wythnos
- yn dechrau cwrs addysg uwch – er enghraifft NVQ lefel 4 neu uwch, hyfforddiant athrawon neu radd
- yn dechrau cael ei addysg rhywle heblaw am ysgol neu goleg – er enghraifft, adref
- yn gadael addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy a'n dechrau gweithio am 24 awr neu fwy'r wythnos, a derbynir neu y disgwylir taliad ar ei gyfer
- yn dechrau hyfforddiant cymeradwy sy'n cael ei ddarparu gan gytundeb cyflogaeth
- yn dechrau addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch a ddarperir gan gyflogwr neu fel rhan o swydd arall sydd ganddo
- yn dechrau cwrs nad yw'n gwrs hyfforddiant cymeradwy
- yn rhoi'r gorau i fod wedi cofrestru â gwasanaeth gyrfaoedd, Connexions, gwasanaeth cymorth awdurdod lleol, y Weinyddiaeth Amddiffyn neu sefydliad tebyg

#### **Rhowch wybod i ni am newidiadau ar unwaith**

Mae'n gyflym ac yn hawdd i roi gwybod i ni ar-lein, ewch i



[www.gov.uk/cyfrif-treth-personol](http://www.gov.uk/cyfrif-treth-personol)



Rhowch alwad i'r Ganolfan Cyswllt Cymraeg



Ysgrifennwch atom i roi gwybod am eich newidiadau

Gweler tudalen 11 am arweiniad ynghylch sut i gysylltu â ni.

## Mae eich plentyn yn gadael addysg neu hyfforddiant

### **Cyn 31 Awst yn dilyn ei ben-blwydd yn 16 oed.**

Mae'n bosibl na fydd eich plentyn yn aros yn yr addysg neu'r hyfforddiant sy'n cyfrif ar gyfer Budd-dal Plant ar ôl 16d oed. Os felly, bydd eich Budd-dal Plant fel arfer yn dod i ben ar ei gyfer ar 31 Awst ar ôl ei ben-blwydd yn 16 oed. Os yw'ch plentyn yn troi'n 16 oed ar 31 Awst, bydd eich taliadau'n dod i ben ar y dyddiad hwnnw.

### **Ar ôl 31 Awst yn dilyn eu pen-blwydd yn 16 oed.**

Mae'n bosibl y bydd eich plentyn yn parhau mewn addysg neu hyfforddiant, ond yn gadael ar ddyddiad hwyrach, er enghraifft, yn 18 neu'n 19 oed. Bydd eich taliadau'n parhau fel arfer tan yr wythnos sy'n cynnwys y cynharaf o'r dyddiadau hyn:

- diwrnod olaf mis Chwefror
- 31 Mai
- 31 Awst
- 30 Tachwedd

Nid yw'r dyddiadau uchod yn gymwys a bydd eich taliadau'n dod i ben ar unwaith os yw'ch plentyn yn dechrau:

- gwaith taledig am 24 awr neu fwy yr wythnos
- cael budd-daliadau penodol, megis Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, credydau treth neu Gredyd Cynhwysol yn ei enw/henw ei hun

## Budd-dal Plant ar gyfer pobl ifanc o dan 18 sy'n gadael addysg neu hyfforddiant

Mae'n bossibl y gallwn ymestyn eich Budd-dal Plant i 20 wythnos os yw'ch plentyn yn 16 neu'n 17 oed ac wedi gadael addysg neu hyfforddiant ac wedi cofrestru ar gyfer gwaith, addysg neu hyfforddiant gyda 'chorff cymwys'. Er mwyn cael yr estyniad rhaid i chi wneud cais amdano.

### **Pwy sy'n gymwys ar gyfer yr estyniad?**

I fod yn gymwys, rhaid bod eich plentyn wedi cofrestru gydag un o'r 'cyrff cymwys' canlynol, sef:

- y gwasanaeth gyrfaoedd lleol
- Connexions
- gwasanaeth cymorth awdurdod lleol neu sefydliad tebyg (yng Ngogledd Iwerddon, y *Department for Employment and Learning* yng Ngogledd Iwerddon neu Fwrdd Addysg a Llyfrgell (Education and Library Board))



- y Weinyddiaeth Amddiffyn - er enghraifft, os yw'ch plentyn yn aros i ymuno â lluoedd arfog Ei Mawrhydi
- sefydliad tebyg i eraill ar y rhestr hon mewn unrhyw Ardal Economaidd Ewropeaidd - rhaid bod hawl gennych i Fudd-dal Plant ar gyfer eich plentyn yn syth cyn dechrau cyfnod yr estyniad

### **Sut i wneud cais am estyniad**

Gallwch wneud cais:



ar-lein - ewch i [www.gov.uk/cyfrif-treth-personol](http://www.gov.uk/cyfrif-treth-personol)



drwy ffonio'r Ganolfan Cyswllt Cymraeg



drwy ysgrifennu atom

Rhaid i chi wneud cais o fewn 3 mis o'r dyddiad mae'ch plentyn yn gorffen yr addysg neu'r hyfforddiant oedd yn cyfrif ar gyfer Budd-dal Plant.

Mae'r estyniad fel arfer yn para hyd at 20 wythnos ac yn dechrau ar y dydd Llun cyntaf ar ôl i'ch plentyn orffen yr addysg neu'r hyfforddiant oedd yn cyfrif ar gyfer Budd-dal Plant.

Bydd yr estyniad yn dod i ben os yw eich plentyn:

- wedi cael ei ben-blwydd yn 18 oed
- yn dechrau gwaith taledig am 24 awr neu fwy'r wythnos
- yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, credydau treth neu Gredyd Cynhwysol yn ei enw/henw ei hun
- yn rhoi'r gorau i fod yn gofrestredig ar gyfer gwaith, addysg neu hyfforddiant gyda chorff cymwys.



Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni ar unwaith am unrhyw un o'r newidiadau hyn.

## **Cael eich arian**

Rydym fel arfer yn talu Budd-dal Plant bob 4 wythnos yn uniongyrchol i gyfrif banc, cymdeithas adeiladu neu gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post®.

Gallwch gael eich arian bob wythnos:

- os ydych yn magu plentyn neu blant ar ben eich hunan
- rydych chi neu'ch partner (os oes un gennych) yn cael
  - Cymhorthdal Incwm
  - Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm
  - Credyd Pensiwn
  - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail incwm
  - Credyd Cynhwysol

Os ydych yn was y Goron sy'n gweithio y tu allan i'r DU, rydym fel arfer yn talu'n uniongyrchol i mewn i gyfrif banc y DU.

Os oes gennych Gyfrif Cynilo Unigol (ISA) mae yna derfyn ar y swm y gallwch ei dalu i mewn i'r cyfrifon hyn. Bydd eich banc neu gymdeithas adeiladu yn gwrthod eich taliad Budd-dal Plant os yw'n eich cymryd dros y terfyn hwnnw.

## Pethau eraill sydd angen i chi wybod

### **Credydau Yswiriant Gwladol**

Os oeddech yn cael Budd-dal Plant ar gyfer plentyn o dan 16 oed cyn 6 Ebrill 2010, roeddech yn gymwys yn awtomatig ar gyfer cynllun o'r enw Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref (HRP).

O 6 Ebrill 2010 ymlaen, am bob wythnos sydd gennych yr hawl i Fudd-dal Plant ar gyfer plentyn o dan 12 oed, byddwch yn cael credydau Yswiriant Gwladol wythnosol er mwyn diogelu eich hawl yn y dyfodol i Bensiwn y Wladwriaeth.

Os wnaethoch gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl 6 Ebrill 2010, byddwn yn trosi unrhyw flynyddoedd treth cyflawn HRP i flynyddoedd cymwys. Gallwn drosi hyd at 22 blynedd o HRP i flynyddoedd cymwys ar gyfer Pensiwn y Wladwriaeth.


### **Credydau Ffactor Enillion**

Os oeddech yn cael Budd-dal Plant ar gyfer plentyn o dan 6 oed cyn 6 Ebrill 2010, roeddech yn cronni hawliad i bensiwn ychwanegol drwy Ail Bensiwn y Wladwriaeth yn awtomatig.

O 6 Ebrill 2010 ymlaen, am bob wythnos sydd gennych yr hawl i Fudd-dal Plant ar gyfer plentyn o dan 12 byddwch yn cael Credydau Ffactor Enillion wythnosol er mwyn diogelu eich hawl yn y dyfodol i Ail Bensiwn y Wladwriaeth.


Byddwch yn gallu cyfuno Yswiriant Gwladol a chredydau Ffactor Enillion gyda dulliau cymhwyso eraill, megis cyfraniadau Yswiriant Gwladol, er mwyn cronni gwerth blwyddyn o hawl.

### **Am ragor o wybodaeth**

 Ewch i [www.gov.uk/additional-state-pension](http://www.gov.uk/additional-state-pension) neu [www.gov.uk/personal-tax/national-insurance](http://www.gov.uk/personal-tax/national-insurance)

# Eich hawliau a'ch rhwymedigaethau

Mae 'Eich Siarter' yn egluro'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni, a'r hyn a ddisgwyliwn gennych chi.

 Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn [www.gov.uk/eichsiarter](http://www.gov.uk/eichsiarter)

## Sut i gysylltu â ni


### I hysbysu ynghylch newid

Mae miliynau o bobl yn defnyddio'u Cyfrif Treth Personol - y dull newydd i wirio'ch gwybodaeth a gwneud newidiadau.

 Ewch i [www.gov.uk/cyfrif-treth-personol](http://www.gov.uk/cyfrif-treth-personol)

Mae'n gyflym, yn hawdd i'w ddefnyddio ac yn ddiogel, ac ar gael 24 awr y dydd. Nid yw'n cymryd yn hir i greu cyfrif, a gallwch ei ddefnyddio i roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'ch amgylchiadau a all effeithio ar eich Budd-dal Plant.

### Am ragor o wybodaeth neu help

 Ewch i [www.gov.uk/report-changes-child-benefit](http://www.gov.uk/report-changes-child-benefit) rhowch alwad i'r Ganolfan Cyswllt Cymraeg neu ysgrifennwch atom.

### Os ydych chi yn y DU:

 Ffôn 0300 200 1900  
Ffôn Testun 0300 200 3103

 Ysgrifennwch at Canolfan Cyswllt Cymraeg  
Tŷ Moelwyn,  
Tros y Bont,  
PORTHMADOG,  
LL49 9AB

### Os ydych dramor

 Ffôn +44 161 210 3086

Pan fyddwch yn cysylltu â ni, rhowch wybod i ni beth yw'r canlynol:

- eich enw llawn
- eich rhif Yswiriant Gwladol
- Rhif Budd-dal Plant
- rhif ffôn yn ystod y dydd

Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn, sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.

Gwasanaethau Digidol CThEM

Hydref 2017 © Hawlfraint y Goron 2017

5014864 CThEM 10/17